Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher yr 8fed o Ebrill 2009, yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh

Presennol: Y Maer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Ros Bellamy (cadeirydd)
y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Christopher Parish,
y Cyng. Ieuan Gwyn, y Cyng. Julia Jones
Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau: Y Dirprwy Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Hugh Towns,

Cof 10 / Ebrill / 09 Cyfrifon i'w talu.

Treuliau'r Clerc (tâl post)	£ 66.02
Orchardweb (diweddaru'r wefan)	£ 25.00
Menter Bro Dinefwr (cyfieithu)	£ 110.84
Prospect construction (atgyweirio drws y swyddfa)	£ 46.00
Y Maer (prynu Baner Llydaw)	£ 7.99

Pasiwyd y rhain i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

Cof 11 / Ebrill /09 Ni dderbyniwyd unrhyw incwm ym mis Chwefror 2009

Cof 12 / Ebrill / 09 Balansau'r Cyfrifon

Cofnodwyd y **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar sefyllfa ariannol y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL	(31.3.09)	£ 4,978.93
LTC CYFRIF CADW	(31.3.09)	£ 37,146.66
LTC Cyfrif Treuliau'r Maer	(20.3.09)	£ 1,462.17

Cof 13 / Ebrill / 09 Materion Ariannol Eraill

1. Balansau Cychwynnol y Cyfrifon ar gyfer cyfrifon diwedd blwyddyn 2008-9

Balans a ddygwyd ymlaen (01.4.08)	£ 63,971.05
Ychwanegu Derbynebau	£ 75,414.99
Llai Taliadau a gwariant ymrwymedig	£ 99,827.92
Balans a gariwyd ymlaen (31.3.09)	**£ 39,58.86**
Cynrychiolir yr arian cronnus hwn gan	
Balans Cyfrif y Trysor 31.3.09	£ 4,978.93
Balans Busnes Dim Rhybudd	£ 37,146.66
Bond Llog Uchel	£ 0
Llai sieciau heb eu cyflwyno 08/09	£ 2,627.23
Cyfanswm y Balans	**£ 39,498.36**

Gwahaniaeth a ymchwilir £ 59.76

2. Rhagolwg y Gyllideb Tair Blynedd.
   Roedd y Swyddog Cyllid wedi paratoi rhagolwg Cyllideb 3 blynedd. Penderfynodd y Cynghorwyr i beidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r rhagolwg.

3. Cofrestr Asedau Sefydlog Mawrth 2009.
   Byddai'r Swyddog Cyllid, y Swyddog Technegol a'r Cyng. Colin Jenkins yn cwrdd ar yr 21ain o Ebrill am 6.30yh i gwblhau'r Gofrestr Asedau.

4. Rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Cyllid i newid y rheolau sefydlog ar gyfer cyflogau staff, yn unol â'r ychwanegiadau a gytunwyd.

5. Adroddodd y Swyddog Cyllid bod Mr Lyn Llewellyn wedi cytuno i ymddwyn fel Archwilydd Mewnol y Cyngor ar gyfer 2008-9. Y dyddiad cyflwyno ar gyfer yr archwiliad allanol oedd y 4ydd o Fedi 2009.
6. Byddai'r Adroddiad Ariannol Diwedd Blwyddyn a'r Gwiriadau Chwarterol yn cael eu gosod ar Agenda cyfarfod y Cyngor Llawn ar yr 22ain o Ebrill.

7. Ceisiadau am Gymorth Ariannol
   I) Homestart Dinefwr £ 150 Cynigwyd gan y Cyng. E. Thomas, eiliwyd gan y Cyng. C.Parish
   II) Mencap Cymru £ 100 Cynigwyd gan y Cyng. C. Parish, eiliwyd gan y Cyng. E. Thomas.
   III) Clwb Criced Llandeilo £200 Cynigwyd gan y Cyng. C. Jenkins, eiliwyd gan y Cyng. E. Thomas.
   IV) Clwb Tenis Llandeilo £ 200 Cynigwyd gan y Cyng. C. Jenkins, eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones
   Roedd pawb o blaid.

Cof 14 /Ebrill / 09 Doedd dim gohebiaeth yn ymwneud â chyllid

Cof 15/ Ebrill / Eitemau o fusnes y penderfynodd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cafwyd cais gan y Cadeirydd, y Cyng. Ros Bellamy, bod pwyntiau gweithredu o'r Adroddiad Gwerthuso Staff yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn, a bod camau gweithredu a dyddiadau cau'n cael eu ceisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh.